## Grŵp Goruchwylio Cadeirlan Bangor

Cyfarfod 16 Mehefin 2025, trwy gynhadledd fideo

Yn bresennol: Yr Athro Medwin Hughes (MH) (Cadeirydd)
Matthew Corbett-Jones (MC-J)
Henry Gilbert (HG)
Judi Hayward (JHa)
Jane Heard (JHe)
Y Parchedig Ganon Athro Peter Neil (PN)
Yr Esgob David Morris (+DM)
Yr Athro Timothy Wheeler (TW)

Yn bresennol: Simon Lloyd (SL)
Deborah Tugwell (DT)
John Davies (JD)
Archddiacon David Parry (DP)

**1 Cyflwyniadau a gweddïau agoriadol**

Pawb wedi cyflwyno eu hunain gan rhoi trosolwg byr o'u cefndiroedd a'u rolau.

Yna agorodd +DM y cyfarfod gyda gweddi.

**2 Cylch gorchwyl**

Cytunwyd ar gylch gorchwyl y Bwrdd Goruchwylio gan Archesgob Cymru a'i gyhoeddi: trafodwyd y cylch gorchwyl. Roedd y cylch gorchwyl yn cynnwys dangosyddion o bryd y gallai'r Bwrdd Goruchwylio cwblhau eu gwaith, ond yn teimlo ei fod yn bwysig bod y Bwrdd yn cael sicrwydd bod yr holl bolisïau a phrosesau newydd a gyflwynwyd yng Nghadeirlan Bangor wedi'u gwreiddio ac yn effeithiol.

Byddai'r Bwrdd Goruchwylio yn cael ei friffio ar y materion yn y ddauadroddiad a oedd yn dangos lle'r oedd angen newid diwylliannol a sefydliadol. Cadarnhaodd JHe fod Pwyllgor Archwilio a Risg y Corff Cynrychiolwyr, yr oedd hi'n Gadeirydd arno, wedi cael adroddiad gan y Grŵp Gweithredu, yn ôl yr angen.

**3 Cyd-destun strategol**

Myfyriodd SL ar effeithiau'r sefyllfa gymhleth yng Nghadeirlan

Bangor. Roedd yr effeithiau'n cael eu teimlo y tu hwnt i'r Eglwys yng Nghymru gan gynnwys yn y sgwâr cyhoeddus. Teimlwyd mai'r gwahanol ddiffygion llywodraethu a'r diwylliant a oedd wedi dod yn amlwg yn y gadeirlan oedd y prif faterion strategol i'w mynd i'r afael â nhw. Cadarnhaodd MH ei fod ef ac SL, yn ogystal â Chadeirydd y

Pwyllgor Sefydlog, wedi cyfarfod â Mainc yr Esgobion i drafod y sefyllfa; byddai'r Corff Cynrychiolwyr hefyd yn trafod y sefyllfa yn ei gyfarfod nesaf ar 24 Mehefin.

**4 Ystyriaeth gychwynnol o adroddiadau**

Adolygiad Diogelu Trideg Un:Wyth Nododd DP y gwaith yr oedd y Grŵp Gweithredu yn ei wneud i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad, ac roedd y Grŵp ar hyn o bryd yn gweithio drwy bob un. Nodwyd mai diwylliant oedd yr agwedd anoddaf o newid i'w rhoi ar waith. Pan gafodd ei benodi, roedd yn bwysig i'r Deon newydd, gyda chefnogaeth y Cabidwl, ddarparu arweinyddiaeth glir. Roedd penodiad y Deon newydd yn un hanfodol gyda chyfweliadau i'w cynnal ar 4 Gorffennaf. Byddai'r panel cyfweld yn cynnwys amrywiaeth o bobl leyg ac ordeiniedig, gan gynnwys yr Archesgob1 a'r +DM, pedwar aelod o'r Cabidwl a chynrychiolydd o ddeoniaid cadeirlan yr Eglwys yng Nghymru. Byddai'r panel yn cael ei gefnogi gan aelod o adran adnoddau dynol y dalaith. Awgrymwyd y byddai ychwanegu rhywun o'r tu allan i'r dalaith yn darparu persbectif ychwanegol,allanol ac y gallai ategu'r broses benodi.

**Adroddiad crynodeb o Ymweliad â Chadeirlan Bangor**

Cytunwyd y byddai'r adroddiad llawn, heb ei olygu, yn cael ei rannu, fel y nodir yn y cylch gorchwyl, gyda'r Bwrdd Goruchwylio i gynorthwyo gwaith y Bwrdd. Trafodwyd y sefyllfa o fewn Cadeirlan Bangor, a'r esgobaeth ehangach.

**Materion ariannol**

Roedd angen sicrwydd o'r broses briodol o ryngweithiadau ariannol rhwng Cabidwl a Bwrdd Cyllid Esgobaethol Bangor gyda'r posibilrwydd o adolygiad ariannol manwl i archwilio'r rhyngweithiadau hynny a drafodwyd. Nododd MH fod y Corff Cynrychiolwyr yn darparu cyllid strwythurol i bob esgobaeth a chadeirlan at ddibenion penodol i gefnogi eu gweithrediadau: gan gydnabod bod sicrwydd bod y cronfeydd elusennol hynny wedi'u defnyddio'n briodol yn bwysig. Nododd JHe fod dyrannu priodol cronfeydd y Corff Cynrychiolwyr yn ystyriaeth bwysig i archwilydd allanol y Corff Cynrychiolwyr. Nodwyd dyletswydd gyfreithiol uniondeb y Corff Cynrychiolwyr.

Cadarnhaodd DP fod y Cabidwl wedi cyfarwyddo ail archwilydd I graffu ar ei gyfrifon. Nodwyd bod llywodraethu a rheolaethau ariannol ym Mwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn gwella, gyda phrosesau newydd ar waith.

**Materion diwylliannol**

Myfyriodd BH ar y digwyddiadau o bryder sylweddol a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau, gan ddangos diwylliant o ymddygiad amhriodol ynghyd ag yfed alcohol yn amhriodol. Roedd polisi alcohol wedi'i baratoi i gynorthwyo i newid yr elfen honno o'r

diwylliant. Nodwyd bod y Corff Cynrychiolwyr wedi penodi swyddogion adnoddau dynol ychwanegol yn ddiweddar, yn gweithredu ar sail ranbarthol o fewn y dalaith: roedd y swyddog gogledd Cymru yn darparu

cefnogaeth yn esgobaeth Bangor yn ôl yr angen. Roedd gan y swyddogion rhanbarthol lwybr rheoli llinell yn ôl at uwch swyddogion taleithiol, felly, os bydden nhw'n dod yn ymwybodol o faterion pryderus, roedd yna lwybr i adrodd y pryderon hynny os oedd angen.

**5 Ymgysylltiadau hyd yma rhwng y** Cabidwl **a'r Grŵp Gweithredu**

Cadarnhaodd DP fod y Cabidwl yn cyfarfod yn fisol, bod cyfarfodydd wedi'u trefnu'n dda gydag agendâu a phapurau wedi'u cynhyrchu a chofnodion wedi'u cymryd; roedd is-bwyllgorau'r Cabidwl hefyd wedi'u ffurfio.

Roedd y Grŵp Gweithredu wedi cyfarfod tair gwaith hyd yn hyn. Trafodwyd

gwaith cynnar y Grŵp. Roedd dogfen yn olrhain cynnydd gweithredu pob un o'r

argymhellion yn yr adroddiad Tri deg un:wyth wedi'i ddarparu i'r Bwrdd Goruchwylio, a drafodwyd hynny. Canmolwyd y ddogfen olrhain fel crynodeb lefel uchaf o argymhellion yr adroddiad: gwnaed rhai sylwadau er mwyn helpu i ddatblygu'r ddogfen a'i gwneud mor ddefnyddiol a goleuedig â phosibl:

- Diffiniadau o'r lliwiau coch, ambr a gwyrdd a ddefnyddir;
- Trefnu'r argymhellion mewn trefn o flaenoriaeth yn hytrach na thrwy grwpiau thema;
- Cynnwys amserlenni; a
- Cynnwys mwy o fanylion o ran y gwaith a wnaed.

**7 Unrhyw Fusnes Arall**

Cytunwyd y byddai'r Bwrdd Goruchwylio yn gwneud datganiad cyhoeddus ar ôl pob cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Byddai MH yn drafftio datganiad yn unol â hynny i'w adolygu gan y Bwrdd.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Goruchwylio ym mis Gorffennaf gyda'r dyddiad i'w drefnu drwy ohebiaeth. Cytunwyd y byddai DP yn cael ei wahodd i fynychu pob cyfarfod o'r Bwrdd Goruchwylio.